

RHWNG

- (1) S4C o Ganolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ ("**S4C**"); a
- (2) [ ] (Rhif Cwmni: [ ]) sydd â'i swyddfa gofrestredig yn [ ] ("**y Cyflenwr**")

RHAGYMDRODD

- (A) S4C yw perchennog/trwyddedai Cynnwys S4C.
- (B) Mae'r Cyflenwr yn drwyddedwr offer rheoli/cyhoeddi cynnwys ar-lein penodol.
- (C) Yn dilyn cyhoeddi gwahoddiad i dendr gan S4C ar gyfer Mynediad i Offer Rheoli Cynnwys Ar-Lein a chyflwyniad gan y Cyflenwr o dendr, mae'r Cyflenwr wedi cytuno i roi i S4C, ei chwmnïau teulu a thrydydd partion awdurdodedig penodol drwydded i ddefnyddio'r offer rheoli/cyhoeddi cynnwys yn unol â thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn.

FE GYTUNIR fel a ganlyn:-

1. **Diffiniadau a Dehongliad**

- 1.1 Yn y Cytundeb hwn, gan gynnwys y rhagymadrodd, bydd y termau canlynol â'r ystyron a nodwyd gyferbyn iddynt oni bai bod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

Arfer Diwydiannol Da:	y lefel o sgil, gofal, gwybodaeth a rhagwelediad a ddisgwyllir yn rhesymol ac yn arferol gan berson profiadol sydd wedi ei ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sydd yr un peth â, neu'n debyg i, Wasanaethau'r Cyflenwr;
Brand S4C:	logo S4C ac unrhyw logo arall sy'n gysylltiedig ag S4C boed wedi ei gofrestru ai peidio;
Cwmni Teulu:	unrhyw is-gwmni neu gwmni dal o dro i dro ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal o dro i dro (fel y diffinnir 'cwmni dal' ac 'is-gwmni' yn adrannau 1159 Deddf Cwmnïau 2006);
Cyfnod:	y cyfnod pan fo'r Cytundeb hwn mewn grym ac yn weithredol a fydd yn dechrau ar y Dyddiad Effeithiol ac a fydd yn parhau wedi hynny am 1 flwyddyn yn amodol ar gynnwys cymal 14;
Cynnwys Annerbyniol:	unrhyw ddefnydd o unrhyw natur sydd yn ddifenwol, amharchus, aflan, neu a fydd, os y'i cyhoeddir, yn ansoddol i ddirmyg llys, sydd yn hyrwyddo trais neu weithgaredd anghyfreithiol neu hyrwyddo gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd, tarddiad gwladol, anabledd corfforol neu oedran, sydd yn cynnwys unrhyw firws,

## Yn Amodol ar Gytundeb

mwydyn, ceffylau trojan, "spyware", cod anablu (gan gynnwys cod a fwriadwyd gan y Cyflenwr i gyfyngu neu rwystro defnydd o'r Gwasanaeth), meddalwedd maleisus neu ddifwynwyr eraill a all gael eu defnyddio i ymyrryd â neu fynd fewn i ac addasu, dileu neu ddifrodi unrhyw ffeiliau data neu raglenni cyfrifiadurol eraill neu sydd yn rhoi mynediad i'r fath ddifwynwyr neu sydd yn torri ar yr hawliau, gan gynnwys yr Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti neu unrhyw gyfraith berthnasol;

- Cynnwys S4C: y cynnwys sydd i'w uwchlwytho ac/neu ei ffrydio ac/neu ei gyhoeddi gan neu ar ran S4C trwy'r Gwasanaeth;
- Cynrychiolydd S4C: [ ] neu bersonau eraill a ymrwymir gan S4C o dro i dro yn ystod y Cyfnod i oruchwylio perfformiad Gwasanaethau'r Cyflenwr;
- Cytundeb: y cytundeb hwn gan gynnwys yr atodlenni ac unrhyw ddogfen a ymgorfforir yn y cytundeb hwn trwy gyfeiriad;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth: y cytundeb a osodir yn Atodlen 3 ar gyfer darpariaeth y Gwasanaethau Cefnogi;
- Chwarter: cyfnod o 3 mis calendr yn gorffen ar 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn galendr o ddyddiad y Cytundeb hwn;
- Deddf: Deddf Hawlfraint Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i diwygiwyd o dro i dro yn ystod y Cyfnod;
- Diweddariad: pob diweddariad mewn perthynas â'r Gwasanaeth ac eithrio Uwchraddiad;
- Diwrnod Busnes: unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru;
- Dyddiad Effeithiol: [ ];
- Dylif Ariannol: y dylif ariannol ar gyfer talu'r Ffi fel y'i nodir yn Atodlen 2;
- Force Majure: fel y'i diffinnir yng nghymal 19;
- Ffi: y ffi a gytunwyd ar gyfer Gwasanaethau'r Cyflenwr fel y'i nodir yn Atodlen 2;
- Gofynion Diogelu Data: y cyfreithiau a rheoliadau trechaf perthnasol mewn perthynas â phrosesu Data Personol a phreifatrwydd, gan gynnwys i'r graddau eu bod yn drech neu'n berthnasol, (i) Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a deddfwriaeth eilaidd gweithredu cenedlaethol, fel y'u hamrywir neu y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn y DU; ac yna (ii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR neu Ddeddf Diogelu Data 2018; ac (iii) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data newydd cenedlaethol;

## Yn Amodol ar Gytundeb

- Gwasanaeth:** y feddalwedd a gwasanaethau eraill sy'n darparu [platform, gwasanaeth neu offer ar-lein] y mae mynediad a thrwydded iddynt yn cael ei ddarparu i S4C o dan y Cytundeb hwn fel y'i ddisgrifir yn y Fanyleb gan gynnwys unrhyw Ddiweddariadau ac Uwchraddiadau y gall fod S4C â'r hawl iddynt o dan y Cytundeb hwn neu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac yn cynnwys unrhyw Feddalwedd Trydydd Parti;
- Gwasanaethau Cefnogi:** gwasanaethau cefnogaeth technegol a gwasanaethau eraill yn ymwneud â'r Gwasanaeth fel y'u manylir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth;
- Gwasanaethau S4C:** unrhyw sianel, gwasanaeth teledu, gwefan, "ap" symudol neu blatfform arall ar gyfer gwneud cynnwys ar gael i'r cyhoedd (boed yn hysbys nawr neu a ddyfeisir wedi hyn) sy'n berchen i neu a ddarperir gan, ar ran, neu gyda chaniatâd S4C o dro i dro gan gynnwys heb gyfyngiad S4C Digidol, Gwefan S4C, unrhyw wasanaeth ffôn symudol o dan frand S4C, gwasanaeth fideo ar alw S4C y'i adnabyddir fel "Gwyllo" ar hyn o bryd a gwasanaeth ar-alw S4C sydd ar gael trwy iPlayer y BBC;
- Gwasanaethau'r Cyflenwr:** yr holl wasanaethau i'w darparu gan y Cyflenwr i S4C yn unol â gofynion y Cytundeb hwn gan gynnwys heb gyfyngiad y Gwasanaethau Cefnogi;
- Gwybodaeth Gyfrinachol:** ar y cyd, unrhyw a'r holl wybodaeth, data a medrau cyfrin o natur gyfrinachol (ym mha bynnag ffurf ac ar ba bynnag gyfrwng) sydd yn berthnasol i eiddo deallusol a/neu fusnes S4C a/neu ei Chwmnïau Teulu sydd yn cael eu datgelu neu eu gwneud ar gael at ddibenion neu a gynhyrchir o dan y Cytundeb hwn a boed cyn, ar neu wedi'r Dyddiad Effeithiol, ynghyd â bodolaeth neu gynnwys y Cytundeb ac/neu unrhyw wybodaeth sydd wedi ei ddynodi'n gyfrinachol gan S4C yn ysgrifenedig neu a ddylid ei ystyried yn gyfrinachol ac/neu unrhyw ddata personol a data sensitif o fewn ystyr y Gofynion Diogelu Data ac/neu fanylion mewngofnodi a chyfrineiriau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth;
- Hawliau Eiddo Deallusol:** holl hawliau eiddo deallusol o ba bynnag natur trwy'r byd ac am yr holl gyfnod o unrhyw a holl amddiffyniad eiddo deallusol a roddir i'r cyfryw gan gynnwys yr holl: batentau, marciau masnachol, marciau gwasanaeth, hawlfraint, dyluniadau cofrestredig ac unrhyw a holl geisiadau am gofrestru o unrhyw un o'r cyfryw le bynnag y'u gwnaethpwyd; ac unrhyw farciau masnachol, marciau gwasanaeth, dyluniadau a hawliau dylunio a hawlfraint anghofrestredig; a basau data, gwybod sut ("know how"), cyfrinachau masnachol a Gwybodaeth Gyfrinachol sut bynnag y mae'n codi; a meddalwedd cyfrifiadurol a chodau ffynhonnell ac unrhyw hawl neu fudd yn unrhyw un o'r uchod;

## Yn Amodol ar Gytundeb

- Manyleb:** y disgrifiadau o swyddogaethau, nodweddion, gallu a dyluniad y Gwasanaeth a ddarparwyd neu a wnaed ar gael gan y Cyflenwr i S4C gan gynnwys y fanyleb a nodir yn Atodlen 1;
- Meddalwedd Ffynhonnell Agored:** unrhyw feddalwedd sy'n ddarostyngedig i fersiwn o'r Drwydded Gyhoeddus Gyffredinol, yn ogystal ag unrhyw feddalwedd 'ffynhonnell agored' o fewn Diffiniad Ffynhonnell Agored a gyhoeddwyd gan yr 'Open Source Initiative' ([www.opensource.org/docs/osd](http://www.opensource.org/docs/osd)) ar ddyddiad y Cytundeb hwn ac unrhyw 'feddalwedd am ddim' fel y'i diffinnir gan y 'Free Software Foundation' ([www.gnu.org/philosophy/free-sw.html](http://www.gnu.org/philosophy/free-sw.html)) ar ddyddiad y Cytundeb hwn;
- Meddalwedd Trydydd Parti:** unrhyw feddalwedd sy'n berchen i unrhyw berson heblaw'r Cyflenwr gan gynnwys Diweddariadau ac Uwchraddiadau i'r fath feddalwedd;
- Nam:** unrhyw wall, nam, chwilen a/neu broblem cyfluniad yn deillio o'r Gwasanaeth sy'n golygu bod gweithrediad y Gwasanaeth yn gwyro neu'n cael ei atal rhag gweithio yn unol â'r Fanyleb a/neu delerau'r Cytundeb hwn;
- Polisiau Yswiriant:** y polisiau a nodir yng nghymal 11;
- Rheolwr:** [ ];
- Trydydd Partion Awdurdodedig:** unrhyw drydydd parti (gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu) a enwebir gan S4C a/neu Gwmnïau Teulu S4C;
- Twyll:** unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud â'r Cytundeb neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C;
- Uwchraddiad:** unrhyw ddiweddariad i'r Gwasanaeth a ryddheir gan y Cyflenwr sy'n darparu gwelliannau ychwanegol, diwygiadau a/neu swyddogaethau neu berfformiad gwell.

- 1.2 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol i gynnwys cyfeiriad at y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno fel yr amrywir, newidir, estynnir neu'i ail-weithredir o dro i dro boed cyn neu wedi dyddiad y Cytundeb hwn ac at bob offeryn a gorchymyn a rheoliad statudol sy'n amrywio newid a/neu'n ymestyn y fath statud neu ddarpariaeth.
- 1.3 Oni bai bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir a bydd geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall hefyd a geiriau sy'n dynodi personau'n cynnwys corfforaethau cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.

## **Yn Amodol ar Gytundeb**

- 1.4 Oni nodir fel arall bydd amser o hanfod o ran gweithredu ymrwymiadau'r Cyflenwr o dan y Cytundeb hwn.
- 1.5 Pwrpas penawdau cymalau'r Cytundeb hwn yw rhoi arweiniad yn unig ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar eiriad unrhyw gymal mewn unrhyw ffordd.
- 1.6 Mae'r term 'yn cynnwys' i'w ddehongli heb gyfyngiad i gyffredinolrwydd y geiriau o'i flaen.
- 1.7 Mae cyfeiriad at gymalau yn gyfeiriad at gymalau ac is-gymalau'r Cytundeb hwn ac mae cyfeiriad at atodlenni yn gyfeiriad at atodlenni'r Cytundeb hwn.
- 1.8 Mae'r term 'Ysgrifennu' yn cynnwys unrhyw fodd o ail-gynhyrchu geiriau mewn ffurf ddarllenadwy ac mewn ffurf nad yw'n ddarfodedig a bydd yn cynnwys trosglwyddiadau ffacsimili neu debyg ac e-byst.

## **2. Trwydded**

- 2.1 Bydd dyletswyddau'r Cyflenwr o dan y Cytundeb hwn yn parhau trwy gydol y Cyfnod oni bai y'i terfynir cyn hynny o dan ddarpariaethau cymal 14.
- 2.2 Mae'r Cyflenwr yn rhoi i S4C, Cwmnïau Teulu S4C ac, yn ddarostyngedig i gymal 2.3, y Trydydd Partïon Awdurdodedig drwydded ddi-alw'n ôl (ac eithrio yn achos terfynu'r Cytundeb neu fod y Cytundeb yn dod i ben) an-ecsgliwsif i gael mynediad i ac i ddefnyddio'r Gwasanaeth trwy gydol y Cyfnod.
- 2.3 Bydd hawliau'r Trydydd Partïon Awdurdodedig i gael mynediad i ac i ddefnyddio'r Gwasanaeth o dan gymal 2.2 yn gyfyngedig i'r Trydydd Partïon Awdurdodedig hynny sydd angen mynediad a defnydd o'r Gwasanaeth ar gyfer y pwrpas o gynhyrchu a/neu reoli Cynnwys S4C ar gyfer S4C neu i unrhyw Gwmni Teulu S4C a bydd eu defnydd o'r Gwasanaeth ar gyfer y pwrpasau hynny yn unig.
- 2.4 Ac eithrio fel a nodir yng nghymal 2.3, gall pob Cwmni Teulu S4C a Thrydydd Partïon Awdurdodedig a drwyddedwyd i ddefnyddio'r Gwasanaeth o dan gymal 2.2 ymarfer pob un o'r hawliau (a byddant yn ddarostyngedig i bob cyfyngiad) a fynegwyd eu bod yn berthnasol i S4C o dan y Cytundeb hwn mewn perthynas â'r Gwasanaeth.

## **3. Cwmpas y Defnydd**

- 3.1 Mae'r hawl i gael mynediad i ac i ddefnyddio'r Gwasanaeth o dan gymal 2.2. yn cynnwys yr hawl i ganiatáu nifer anghyfyngedig o ddefnyddwyr i gael mynediad i ac i ddefnyddio'r Gwasanaeth o unrhyw leoliad.
- 3.2 Ac eithrio fel a ganiateir yn benodol yn y Cytundeb hwn neu o dan y gyfraith, ni fydd S4C yn:
  - 3.2.1 copïo, newid, addasu, cywiro gwallau neu greu gwaith deilliadol o'r Gwasanaeth;
  - 3.2.2 dad-godio, adeiladu o chwith, dadelfennu, dad-lunio, neu fel arall yn cyfieithu neu drosi'r Gwasanaeth.

## **4. Cyfleu a Chyfathrebu ag S4C**

## **Yn Amodol ar Gytundeb**

- 4.1 Bydd y Cyflenwr yn cyfleu manylion mewngofnodi i'r Gwasanaeth i S4C ar neu cyn y Dyddiad Effeithiol. Bydd y Cyflenwr yn darparu pob cyfarwyddyd rhesymol, gan gynnwys unrhyw godau ysgogi neu allwedd trwydded angenrheidiol i S4C.
- 4.2 Bydd y Cyflenwr yn darparu'r fath adroddiadau mewn perthynas â Gwasanaethau'r Cyflenwr fel sy'n ofynnol gan Gynrychiolydd S4C yn ystod y Cyfnod.
- 4.3 Bydd y Cyflenwr yn cyfathrebu'n rheolaidd â Chynrychiolydd S4C ar bob agwedd o ddarparu Gwasanaethau'r Cyflenwr.
- 4.4 Mae'r Cyflenwr yn cytuno ymhellach i gydymffurfio â gofynion S4C fel y'u hesbonnir gan Gynrychiolydd S4C o dro i dro.

## **5. Gwasanaethau Cefnogi**

- 5.1 Bydd y Cyflenwr yn darparu'r Gwasanaethau Cefnogi yn unol â thelerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth trwy gydol y Cyfnod.
- 5.2 Bydd y Cyflenwr yn gwneud y fath newidiadau i'r Gwasanaeth fel sy'n angenrheidiol er mwyn datrys unrhyw Nam yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn weithredol trwy gydol y Cyfnod.
- 5.3 Bydd S4C â'r hawl i unrhyw Ddiweddariad ac Uwchraddiad a gyhoeddir gan y Cyflenwr mewn perthynas â'r Gwasanaeth o dro i dro heb gost pellach.
- 5.4 Bydd unrhyw Ddiweddariad neu Uwchraddiad a ddarperir i S4C o dan y Cytundeb hwn:
  - 5.4.1 yn golygu bod gan y Gwasanaeth o leiaf yr un swyddogaethau, perfformiad a chydweiddoldeb ag offer a systemau ag oedd gan y Gwasanaeth yn union cyn y Diweddariad neu Uwchraddiad perthnasol;
  - 5.4.2 yn golygu na fydd effaith andwyol ar swyddogaethau, perfformiad neu gydweiddoldeb y Gwasanaeth.

## **6. Y Gwasanaeth**

- 6.1 Mae'r Cyflenwr yn ymrwymo i sicrhau fod yr holl Wasanaeth:-
  - 6.1.1 yn cydymffurfio ag ac yn gweithredu safonau ansawdd sy'n dderbyniol yn gyffredinol ar gyfer gwasanaethau o'r un math o bryd i'w gilydd;
  - 6.1.2 ddim yn cynnwys unrhyw Gynnwys Annerbyniol;
  - 6.1.3 yn rhydd o unrhyw raglenni anablu neu ddyfeisiadau tebyg.

## **7. Hyfforddiant**

- 7.1 Bydd y Cyflenwr yn darparu hyfforddiant i S4C ar ddefnyddio'r Gwasanaeth yn y modd a nodir yn y cymal 7 hwn ac Atodlen 1.
- 7.2 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod y caiff yr hyfforddiant ei ddarparu heb gost pellach i S4C.

## Yn Amodol ar Gytundeb

7.3 Caiff unrhyw hyfforddiant pellach ei ddarparu ar y fath delerau ag y gall y partïon gytuno ac ar gyfraddau hyfforddiant safonol y Cyflenwr o dro i dro.

## 8. **Ymrwymïadau Staffio'r Cyflenwr**

8.1 Mae'r Cyflenwr yn ymrwymo gydag S4C y caiff Gwasanaethau'r Cyflenwr eu perfformio:

8.1.1 mewn modd effeithiol a diogel yn unol ag Arfer Diwydiannol Da a gan y personél allweddol (os yn berthnasol) a nodir yn y Fanyleb;

8.1.2 yn unol â phob cyfraith a gofynion rheoleiddiol o dro i dro sy'n berthnasol i berfformiad Gwasanaethau'r Cyflenwr.

8.2 Mae'r Cyflenwr yn cytuno i gyflogi neu hurio nifer digonol o weithwyr, staff neu ymgynghorwyr (gan gynnwys rhai sydd yn siarad Cymraeg os yn berthnasol) sydd yn angenrheidiol ar gyfer darparu Gwasanaethau'r Cyflenwr, a bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gan y staff lefelau priodol o gymwysterau a phrofiad ac/neu y byddant yn derbyn hyfforddiant digonol, ac yn ychwanegol, y byddant yn gweithio'r nifer o oriau sydd yn angenrheidiol i ddarparu Gwasanaethau'r Cyflenwr yn effeithiol ac yn unol â gofynion S4C.

8.3 Yn ddiragfarn i Gymal 8.2, bydd y Cyflenwr yn ymrwymo'r Rheolwr i oruchwylio a/neu gynorthwyo'r Cyflenwr i sicrhau darpariaeth y Gwasanaethau yn unol â gofynion y Cytundeb. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod fod y Rheolwr yn weithiwr allweddol ar gyfer pwrpas y Cytundeb hwn ac ni fydd y Cyflenwr yn newid y Rheolwr neu ddefnyddio unrhyw un arall i berfformio dyletswyddau'r Rheolwr heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw (na fydd yn cael ei wrthod na'i oedi yn afresymol).

8.4 Bydd y Cyflenwr yn hysbysu S4C yn syth yn ysgrifenedig os am unrhyw reswm y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn. Bydd unrhyw hysbysiad o'r fath heb ymrwymiad i unrhyw hawliau y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall o dan y gyfraith mewn perthynas ag anallu'r Cyflenwr i fedru cyflawni ei ddyletswyddau.

## 9. **Talu**

9.1 Mewn ystyriaeth am fod y Cyflenwr yn cydymffurfio ac yn perfformio'i ddyletswyddau'n llawn o dan y Cytundeb hwn, Gwasanaethau a'r perfformiad gan y Cwmni o'i oblygiadau o dan y Cytundeb hwn bydd S4C yn talu'r Ffi i'r Cyflenwr yn unol â'r Dylif Ariannol a darpariaethau eraill y Cytundeb hwn.

9.2 Bydd y Cyflenwr yn cyflwyno anfonebau ar gyfer y Ffi yn unol â'r Dylif Ariannol, a bydd yn dangos TAW ar wahân ar y cyfryw anfonebau, a bydd S4C yn talu'r cyfryw anfonebau o fewn deg diwrnod ar hugain (30) o'u derbyn. Ni fydd y Cyflenwr yn cyflwyno anfoneb cyn y dyddiad sydd yn ddyladwy ar gyfer ei chyflwyno.

9.3 Bydd gan S4C yr hawl i gadw unrhyw daliadau a fyddai fel arall yn ddyledus i'r Cyflenwr yn unol â chymal 9.1 lle mae'n amau, mewn ewylllys da, nad ydyw'r Cyflenwr wedi perfformio ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn gywir. Ni fydd taliad gan S4C o'r cyfan neu ran o'r anfoneb yn golygu derbyniad o gywirdeb neu ddilysrwydd yr anfoneb.

## Yn Amodol ar Gytundeb

9.4 Y Cyflenwr fydd yn gyfrifol am yr holl gynnal a chadw, treuliau, gorbenion ategol, gwariant a chostau a eir iddynt wrth berfformio Gwasanaethau'r Cyflenwr.

## 10. Arolygu

10.1 Bydd y Cyflenwr yn cwrdd ag S4C yn bersonol neu fel arall yn Chwarterol ac ar unrhyw adeg arall ac yn unrhyw leoliad sydd yn gyfleus i'r ddau barti yn ôl gofyn rhesymol S4C i arolygu'r materion a nodir yng nghymal 10.2 a bydd y Cyflenwr yn sicrhau presenoldeb y Rheolwr ac unrhyw weithiwr perthnasol arall yn y cyfryw gyfarfodydd. Ar gais S4C, bydd y Cyflenwr yn darparu adroddiad ysgrifenedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yn ôl gofyn rhesymol S4C mewn perthynas â'r Chwarter blaenorol o leiaf ddeg (10) Diwrnod Gwaith cyn y fath gyfarfod.

10.2 Yn y cyfryw gyfarfodydd arolygu ac yn ddiragfarn i amodau'r Cytundeb hwn bydd y partion yn arolygu'r canlynol:-

10.2.1 ansawdd dechnegol, gweithrediad a defnyddioldeb y Gwasanaeth;

10.2.2 unrhyw Namau a adroddwyd ers y cyfarfod blaenorol a'r camau a gymerwyd i ddelio â'r fath Namau;

10.2.3 unrhyw ddadansoddiadau a dderbyniwyd am y Gwasanaeth;

10.2.4 gweithrediad y Cyflenwr o Wasanaethau'r Cyflenwr yn gyffredinol;

10.2.5 unrhyw fodd o addasu neu wella darpariaeth Gwasanaethau'r Cyflenwr, unrhyw addasiadau i gynllun neu weithrediad y Gwasanaeth gan roi ystyriaeth i anghenion neu ddatblygiadau technolegol (gan gynnwys unrhyw nodweddion newydd sy'n dod ar gael ar draws y platfformau) neu unrhyw geisiadau am newid a wnaethpwyd gan S4C o ganlyniad i unrhyw ddadansoddiadau dylanwad neu ddadansoddiadau o'r Gwasanaeth a dderbyniwyd; ac

10.2.6 unrhyw faterion eraill y mae'r naill barti neu'r llall yn dymuno eu trafod.

10.3 Yn dilyn y fath gyfarfodydd adolygu, gall S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr i:

10.3.1 gadarnhau apwyntiad y Cyflenwr am weddill y Cyfnod yn unol â thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn;

10.3.2 gadarnhau apwyntiad y Cyflenwr am weddill y Cyfnod ar y fath delerau diwygiedig, ychwanegol neu wahanol a gytunir rhwng y partion ac a gadarnheir yn ysgrifenedig; neu

10.3.3 derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi tri mis o rybudd.

## 11. Yswiriant

11.1 Cyn y Dyddiad Effeithiol, mae'r Cyflenwr yn ymrwymo i gychwyn a chynnal polisïau yswiriant addas gyda chwmnïau neu dan-sgrifennwyr yswiriant cyfrifol rhag yr holl beryglon yr yswirir yn eu herbyn fel rheol yn unol ag arferion ac ymarfer da y diwydiant ac amgylchiadau penodol Gwasanaethau'r Cyflenwr trwy gydol y Cyfnod. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y cyfryw yswiriant yn cynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronol (*aggregate*) o



## Yn Amodol ar Gytundeb

£5,000,000 y flwyddyn ac yswiriant atebolrwydd cynnyrch gyda throthwy isafswm indemniad o £10,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronol o £10,000,000 y flwyddyn.

- 11.2 Mae'r Cyflenwr yn ymrwmo i gydymffurfio â thelerau, amodau a chyfyngiadau'r Polisiâu Yswiriant trwy gydol y Cyfnod, gan gynnwys sicrhau taliadau amserol o bob premiwm. Ni fydd y Cyflenwr yn gwneud dim nac yn caniatáu i ddim gael ei wneud fydd yn peri y gall unrhyw un o'r Polisiâu Yswiriant gael ei ddiddymu, neu fod yn ddirym neu fod yn ddirymadwy, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl.
- 11.3 Bydd y Cyflenwr yn darparu gwybodaeth lawn a'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r holl Polisiâu Yswiriant a'r holl amrywiadau, ychwanegiadau ac estyniadau i'r holl Polisiâu Yswiriant i S4C yn ddi-oed wedi derbyn cais gan S4C.
- 11.4 Bydd y Cyflenwr yn cyngori S4C yn syth yn ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad a all arwain at unrhyw hawliad o dan unrhyw un o'r Polisiâu Yswiriant a all rwystro'r Cyflenwr rhag cydymffurfio â'i ddyletswyddau cytundebol o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cyflenwr yn darparu i S4C gopiâu o'r holl ohebiaeth a dogfennau sy'n berthnasol i unrhyw fater o'r fath yn syth wedi eu derbyn.

## 12. **Hawliau Eiddo Deallusol**

- 12.1 Mae S4C yn rhoi i'r Cyflenwr drwydded an-ecsqliwsif ddi-freindal y gellir ei galw'n ôl yng Nghynnwys S4C yn ystod y Cyfnod ar gyfer y pwrpas o ddarparu Gwasanaethau'r Cyflenwr yn unig sef yr hawl i (i) gyfleu Cynnwys S4C yn unol â'r dewisiadau a osodwyd gan S4C; (ii) diogelu, amgodio, atgynhyrchu, cynnal, "cache", llwybro, diwygio, dadansoddi a chreu algorithmau ac adroddiadau yn seiliedig ar fynediad at a'r defnydd o Gynnwys S4C; (iii) defnyddio, arddangos, darlledu, cyhoeddi, arddangos yn gyhoeddus, perfformio'n gyhoeddus, dosbarthu, hyrwyddo, copïo, storio, a/neu atgynhyrchu (ar unrhyw ffurf) Cynnwys S4C oll yn unol â'r dewisiadau a osodwyd gan S4C.
- 12.2 Bydd y Cyflenwr yn indemnio S4C, Cwmnïau Teulu S4C a'r Trydydd Partïon Awdurdodedig, a'u cadw wedi eu hindemnio ac yn ddigolled rhag ac yn erbyn unrhyw golled, hawliad, iawndal, costau (gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol arall) a threuliau a ddioddefir o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw weithred, orchymyn neu hawliad bod mynediad i neu ddefnydd o'r Gwasanaeth yn torri ar Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti ("**Hawliad ED**").
- 12.3 Os daw S4C yn ymwybodol o Hawliad ED:
  - 12.3.1 bydd yn hysbysu'r Cyflenwr yn brydlon; a
  - 12.3.2 bydd y Cyflenwr yn amddiffyn neu'n setlo'r Hawliad ED a bydd yn cyfathrebu'n rheolaidd ag S4C ar bob agwedd o'r amddiffyniad neu setliad.
- 12.4 Os bydd y Gwasanaeth neu os bydd yn debygol o ddod yn destun Hawliad ED, bydd y Cyflenwr yn:
  - 12.4.1 sicrhau hawl i S4C barhau i ddefnyddio'r Gwasanaeth; neu
  - 12.4.2 amnewid neu addasu'r Gwasanaeth (neu'r rhan ohono sy'n destun yr Hawliad ED) fel ei fod yn peidio â thorri ar yr hawliau perthnasol heb effeithio gweithrediad y Gwasanaeth yn unol â'r Fanyleb yn sylweddol.

## Yn Amodol ar Gytundeb

- 12.5 Bydd unrhyw fethiant gan y Cyflenwr i gyflawni unrhyw o'r canlyniadau a ddisgrifir yn 12.4 o fewn cyfnod rhesymol, ond beth bynnag o fewn [30] diwrnod calendr o'r dyddiad y daeth y Cyflenwr yn ymwybodol o'r Hawliad ED, yn dor cytundeb sylweddol na ellir ei ddatrys.
- 12.6 Lle bo'r Cyflenwr yn amnewid neu'n addasu'r Gwasanaeth o dan gymal 12.4.2, bydd y gwarantau yng nghymalau 13.1 ac 13.2 yn parhau'n berthnasol i'r Gwasanaeth a amnewidiwyd neu a addaswyd.
- 12.7 Ni fydd gan y Cyflenwr unrhyw atebolrwydd o dan gymal 12.2 i'r graddau bod unrhyw Hawliad ED yn deillio o unrhyw addasiad i'r Gwasanaeth a wnaed heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyflenwr neu o unrhyw ddefnydd o'r Gwasanaeth gan S4C sy'n torri ar delerau'r Cytundeb hwn.
- 12.8 Mae darpariaethau'r cymal 12 hwn yn ychwanegol i, ac nid ydynt yn eithrio, unrhyw hawliau a rhwymedi eraill y gall fod gan S4C, Cwmnïau Teulu S4C neu'r Trydydd Partion Awdurdodedig yr hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn, o dan gyfraith neu fel arall.
- 12.9 Mae'r Hawliau Eiddo Deallusol yn y Gwasanaeth yn berchen i'r Cyflenwr. Ac eithrio'r hawl i gael mynediad i ac i ddefnyddio'r Gwasanaeth a roddir yn benodol yn y Cytundeb hwn, ni fydd S4C yn caffael mewn unrhyw ffordd unrhyw deitl, hawl perchnogaeth neu Hawliau Eiddo Deallusol o ba bynnag natur yn y Gwasanaeth neu yn unrhyw gopiau ohono ac ni chaiff unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol y naill barti eu trosglwyddo neu eu trwyddedu o ganlyniad i'r Cytundeb hwn ac eithrio fel a nodir yn benodol yn y Cytundeb.

## 13. **Ymrwymadau, Gwariantadau ac Indemniad**

- 13.1 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu ac yn cynrychioli i S4C y bydd y Gwasanaeth yn:
  - 13.1.1 perfformio yn unol â, ac yn darparu pob cyfleuster a swyddogaeth a nodir yn y Fanyleb;
  - 13.1.2 gweithredu'n llwyddiannus ar yr offer a systemau a nodir yn Atodlen 1 (os o gwbl); ac
  - 13.1.3 na fydd y Gwasanaeth yn cael ei effeithio'n andwyol gan unrhyw ddyddiad ac y bydd yn gallu prosesu pob dyddiad (gan gynnwys blynyddoedd naid).
- 13.2 Mae'r Cyflenwr yn cynrychioli, gwarantu ac yn ymrwmo:-
  - 13.2.1 bod ganddo'r hawl, pŵer a'r awdurdod i ymrwmo i'r Cytundeb hwn ac i roi'r drwydded i gael mynediad i ac i ddefnyddio'r Gwasanaeth yn unol â'r telerau a nodir yn y Cytundeb;
  - 13.2.2 na fydd mynediad na defnydd o'r Gwasanaeth yn unol â'r Cytundeb yn torri ar Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti;
  - 13.2.3 bydd yn cyflawni Gwasanaethau'r Cyflenwr yn ffyddlon ac yn gydwytbodol ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, rheolau a chanllawiau sy'n berthnasol;
  - 13.2.4 bydd yn cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau rhesymol S4C ynglŷn â Gwasanaethau'r Cyflenwr;

## Yn Amodol ar Gytundeb

- 13.2.5 ef yw unig berchennog llwyr dilyffethair cyfreithiol a llesiannol yr holl Hawliau Eiddo Deallusol yn y Gwasanaeth ac nid yw wedi aseinio, arwystlo, is-drwyddedu nac fel arall wedi llyffetheirio unrhyw un o'r cyfryw hawliau mewn unrhyw fodd;
- 13.2.6 na fydd unrhyw beth a gynhwysir yn y Gwasanaeth yn cynnwys neu yn rhoi mynediad i unrhyw Gynnwys Annerbyniol;
- 13.2.7 ei fod yn rhydd i arwyddo'r Cytundeb hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw drefniant a allai wrthdaro â'r Cytundeb hwn ac yn benodol nad ydyw ac ni fydd yn cael gwared ar neu'n rhoi i unrhyw drydydd parti unrhyw hawliau yn y Gwasanaeth sydd yn neu allai fod yn anghyson â neu gyfyngu ar yr hawliau a roddwyd neu yr honnir eu bod wedi eu rhoi i S4C o dan y Cytundeb hwn;
- 13.2.8 nid yw'n ymwybodol o unrhyw gyfreitha, cyflafareddiad nac achosion ar droed ar hyn o bryd, yn yr arfaeth neu wedi eu bygwth yn erbyn y Gwasanaeth, teitl a/neu berchnogaeth yr hawlfraint yn unrhyw weithiau hawlfraint gwaelodol y mae'r Gwasanaeth i'w seilio arnynt y gallai effeithio ar y Gwasanaeth yn andwyol neu y gallai mewn unrhyw ffordd rwystro, gyfyngu, leihau neu dorri ar unrhyw o'r hawliau a roddir drwy hyn;
- 13.2.9 y bydd yn hysbysu S4C yn syth os y daw'n ymwybodol o unrhyw gyfreitha, gyflafareddiad neu hawliad o'r fath, boed ar droed, yn yr arfaeth neu wedi'u bygwth ac, ar ei draul ei hun, yn cymryd y fath gamau ag y gall S4C ofyn yn rhesymol i leihau a/neu ddileu canlyniadau'r cyfryw;
- 13.2.10 nid yw'r Gwasanaeth yn cynnwys unrhyw Feddalwedd Ffynhonnell Agored ac ni chafodd unrhyw ran o'r Gwasanaeth ei lunio, addasu neu ei baratoi gan ddefnyddio unrhyw Feddalwedd Ffynhonnell Agored;
- 13.2.11 ni fydd unrhyw Ddiweddariad neu Uwchraddiad yn effeithio'n andwyol ar berfformiad a/neu weithrediad y Gwasanaeth;
- 13.2.12 wrth gyflawni Gwasanaethau'r Cyflenwr bydd yn cydymffurfio â'r Gofynion Diogelu Data a bydd yn sicrhau bod unrhyw ddata personol a gesglir neu a brosesir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn cael ei brosesu yn unol â gofynion y Gofynion Diogelu Data a Pholisïau Diogelu Data a Phreifatrwydd S4C.
- 13.3 Nid yw'r Cyflenwr yn gwarantu na chynrychioli y bydd y Gwasanaeth yn gweithredu yn rhydd o wallau mân nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar berfformiad, arddangosiad na gweithrediad y Gwasanaeth.
- 13.4 Yn ddarostyngedig i gymal 14, rhoddir y gwarantau a'r cynrychioliadau yn y cymal 13 hwn gan y Cyflenwr i unrhyw Gwmni Teulu S4C a Thrydydd Partion Awdurdodedig a drwyddedwyd i ddefnyddio'r Gwasanaeth o dan y Cytundeb hwn ar yr un telerau ag y'u rhoddir i S4C.
- 13.5 Bydd gan S4C yr hawl i fudd pob gwarant, amod a thelerau sy'n ymhlyg mewn deddfwriaeth, ffaith, cyfraith neu arfer (y tybir drwy hyn eu bod wedi eu hymgorffori yn y Cytundeb trwy gyfeiriadaeth i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i'r cymal 13.5 hwn). Mae darpariaethau'r cymal 13 hwn yn ychwanegol i, ac nid yw'n eithrio, unrhyw hawliau a rhwymedi eraill y gall fod gan S4C, Cwmnïau Teulu S4C a'r

## Yn Amodol ar Gytundeb

Trydydd Partïon Awdurdodedig yr hawl iddynt ac, yn benodol, ni chaiff y gwarantau ac amodau sy'n ymhlyg yn Neddf Gwerthu Nwyddau 1979 na Deddf Darparu Cynnyrch a Gwasanaethau 1982 eu heithrio.

- 13.6 Bydd y Cyflenwr yn indemnio a phob amser yn cadw S4C ei hollynwyr a'i haseineion wedi eu hindemnio yn llwyr ar ofyn rhag ac yn erbyn pob colled (gan gynnwys unrhyw golled ariannol neu golled economaidd arall) treulïau, hawliau, gofynion, gweithrediadau, achosion, costau (gan gynnwys costau cyfreithiol ar sail indemniad), iawndal neu daliadau a ddiodefwyd neu a godwyd neu a roddwyd, iawndal a gytunwyd neu unrhyw atebolrwydd o ba fath bynnag sy'n codi ym mha ffordd bynnag o ganlyniad i unrhyw dorri ar neu fethiant i ufuddhau gan y Cyflenwr i bob un neu unrhyw un o'r cytundebau, ymrwymïadau neu warantiadau a gynhwysir yn y Cytundeb hwn neu o ganlyniad i unrhyw weithred esgeulus neu gamgymeriad neu anwaith ar ran y Cyflenwr.

## 14. **Terfynu**

- 14.1 Yn ddiragfarn i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd gan unrhyw barti yn erbyn unrhyw barti arall, bydd gan y naill barti'r hawl i derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall os:-

14.1.1 yw'r parti arall yn torri ar unrhyw gymal, amod neu ymrwymïad yn y Cytundeb hwn ac nid yw'n bosibl i gywiro'r fath doriad neu lle mae'n bosib cywiro'r toriad, mae'r parti wedi methu â chywiro'r toriad o fewn cyfnod o saith (7) niwrnod o dderbyn rhybudd gan y parti arall yn rhoi manylion o'r toriad neu unrhyw gyfnod cywiro arall y cyfeirir ato mewn man arall yn y Cytundeb hwn;

14.1.2 mae'r llall:

- a) â derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi ei apwyntio neu mae'n pasio penderfyniad ar gyfer dirwyn i ben (ac eithrio ar gyfer pwrpas cynllun o uniad diddyled neu ail-luniad) neu os bydd llys gydag awdurdod priodol yn gwneud gorchymyn i'r perwyl hynny; neu
- b) yn destun gorchymyn gweinyddu neu ei fod yn gwneud trefniant gwirfoddol gyda'i gredydwy.

- 14.2 Bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn yn syth:

14.2.1 os bydd y Cyflenwr, ei weithwyr neu staff yn euog o gamymddwyn neu esgeulustod dybryd yn ystod perfformio ei/eu goblygiadau o dan y Cytundeb hwn; neu

14.2.2 os oes newid yn rheolaeth (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 1124 Deddf Trethi Corfforaethol 2010) y Cyflenwr.

- 14.3 Bydd gan S4C yr hawl, ar ei opsiwn, i ymestyn Cyfnod y Cytundeb am gyfnod o hyd at ddeuddeg (12) mis o ddiwedd y Cyfnod trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr o leiaf un mis cyn y fath ddyddiad. Os nad yw S4C yn dymuno ymestyn y Cytundeb wedi'r Cyfnod, bydd y Cytundeb yn dod i ben ar ddiwedd y Cyfnod a bydd darpariaethau cymal 15 yn berthnasol.

## Yn Amodol ar Gytundeb

- 14.4 Lle bo S4C wedi ymarfer ei opsiwn i ymestyn y Cyfnod yn unol â chymal 14.3, gall S4C benderfynu ymestyn y Cytundeb am gyfnod pellach o ddeuddeg (12) mis o ddiwedd y Cyfnod trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr o leiaf un mis cyn y fath ddyddiad. Os nad yw S4C yn dymuno ymestyn y Cytundeb wedi'r Cyfnod, bydd y Cytundeb yn dod i ben ar ddiwedd y Cyfnod a bydd darpariaethau cymal 15 yn berthnasol.
- 14.5 Ar gyfer pwrpas y cymal 14 hwn bydd "rhybudd ysgrifenedig" yn golygu rhybudd ysgrifenedig a gyflwynwyd drwy'r post yn unol â chymal 18. Nid oes unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn caniatáu y naill barti na'r llall i derfynu'r Cytundeb hwn dros ebost neu drosglwyddiad ffacs.
15. **Canlyniadau Terfynu**
- 15.1 Yn ddiragfarn i hawliau cyfreithiol y partion bydd canlyniadau terfynu'r Cytundeb hwn fel y rhestrir isod:-
- 15.1.1 bydd dyletswydd S4C i dalu'r Ffi (neu unrhyw falans ohono) yn dod i ben;
- 15.1.2 ni fydd gan y Cyflenwr unrhyw hawl, drwydded neu ganiatâd yn dilyn y dyddiad terfynu i ymdrin â Chynnwys S4C mewn unrhyw ffordd nac i'w gadw yn ei feddiant nac o dan ei reolaeth ac eithrio er mwyn trosglwyddo'r cyfryw eitemau i S4C ac/neu ddileu'r fath eitemau o'r Gwasanaeth ac o unrhyw systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a dyfeisiadau a ddefnyddir ganddo, gan gynnwys systemau o'r fath a gwasanaethau storio data a ddarperir gan drydydd partion (i'r graddau sy'n dechnegol ymarferol)(yn unol â chyfarwyddiadau S4C) cyn gynted ag sy'n ymarferol yn rhesymol (ac eithrio i'r graddau ei bod yn ofynnol i gadw unrhyw wybodaeth a/neu ddeunydd o dan y gyfraith, rheoliad neu awdurdod cyfreithiol, llywodraethol neu reoleiddiol cymwys, ac yn fath amgylchiad gall y Cyflenwr eu cadw at y pwrpasau hynny yn unig ar yr amod ei fod yn darparu i S4C gopïau llawn o'r cyfryw eitemau);
- 15.1.3 bydd pob trwydded a roddwyd i'r Cyflenwr gan S4C o dan y Cytundeb hwn yn dod i ben yn syth; a
- 15.1.4 bydd S4C yn peidio â defnyddio'r Gwasanaeth a bydd yn caffael bod Cwmnïau Teulu S4C a'r Trydydd Partion Awdurdodedig yn peidio â defnyddio'r Gwasanaeth yn ogystal.
- 15.2 Oni ddarperir yn wahanol, bydd terfynu'r Cytundeb hwn yn ddiragfarn i rodiad yr hawliau a'r gwarantau a'r ymrwymadau a roddwyd gan unrhyw un o'r partion a'r holl ddyletswyddau ac indemniadau eraill sydd wedi codi neu sydd wedi eu rhoi cyn terfynu'r Cytundeb, y bydd pob un ohonynt yn parhau mewn grym llawn ac effaith wedi terfynu serch bod terfynu wedi digwydd.
- 15.3 Bydd yr holl gymalau sy'n angenrheidiol ar gyfer dehongliad priodol o'r Cytundeb a gorfodi'r Cytundeb hwn yn goroesi os bydd y Cytundeb hwn yn dirwyn i ben trwy dreigl amser neu'n cael ei derfynu sut bynnag y bo'n digwydd gan gynnwys y canlynol: 1 (Diffiniadau), 12.2, 13 (Ymrwymadau, Gwarantau ac Indemniad), 15 (Canlyniadau Terfynu), 16 (Cyfrinachedd), 17 (Aseiniad), 20 (Diogelu Data a DRhG), 21 (Dehongliad), 22 (Atal Llygredigaeth a Thwyll).
16. **Cyfrinachedd**

## Yn Amodol ar Gytundeb

- 16.1 Bydd y Cyflenwr yn defnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol at ddibenion cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn unig ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 16.2, ni fydd yn datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i unrhyw berson arall ac eithrio dan amgylchiadau o gyfrinachedd i'w staff os oes angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni yn unig, a bydd y Cyflenwr yn cymryd pob cam ag y gall S4C fynnu yn rhesymol i orfodi unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd o'r fath yn erbyn unrhyw o'i staff.
  - 16.2 Ni fydd y cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth a gynhwysir yng nghymal 16.1 yn weithredol i unrhyw wybodaeth sydd:
    - 16.2.1 yn gyhoeddus neu a ddaw yn gyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i unrhyw dorri ar y cyfyngiadau ar ddatgelu gan y Cyflenwr neu unrhyw o'i staff;
    - 16.2.2 yn ofynnol i'w datgelu o dan y gyfraith neu i unrhyw gorff rheoleiddio y mae'r partion yn gorfod cydymffurfio â'i reolau, ar yr amod bod y Cyflenwr, i'r graddau y caniateir yn gyfreithiol i wneud hynny, yn rhoi i S4C cymaint o rybudd â phosib o'r fath ddatgeliad; neu
    - 16.2.3 sy'n ofynnol i'w datgelu i is-gontractiwr sydd wedi ei ganiatáu o dan Gymal 17.
  - 16.3 Ar derfynu'r Cytundeb hwn, bydd y Cyflenwr yn:
    - 16.3.1 dychwelyd i S4C pob dogfen a deunydd (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol;
    - 16.3.2 yn dileu'r holl Wybodaeth Gyfrinachol o systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a dyfeisiadau a ddefnyddir ganddo, gan gynnwys systemau o'r fath a gwasanaethau storio data a ddarperir gan drydydd partion (i'r graddau sy'n dechnegol ymarferol); ac
    - 16.3.3 yn tystio'n ysgrifenedig ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y cymal hwn, ar yr amod y gall y Cyflenwr gadw dogfennau a deunydd sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol i'r graddau sy'n ofynnol o dan y gyfraith neu unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol.
  - 16.4 Ac eithrio fel a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn, nid yw S4C yn gwneud unrhyw warant neu ddatganiad boed yn echblyg neu'n ymhlyg ynglŷn â Gwybodaeth Gyfrinachol S4C.
  - 16.5 Mae S4C yn cadw pob hawl yng Ngwybodaeth Gyfrinachol S4C. Ni roir unrhyw hawliau mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol S4C i'r Cyflenwr ac eithrio'r rhai a nodir yn benodol yn y Cytundeb, ac nid oes unrhyw hawl yn ymhlyg yn y Cytundeb.
  - 16.6 Bydd darpariaethau'r cymal 16 hwn yn parhau yn weithredol wedi terfynu'r Cytundeb hwn.
17. **Aseiniad**

## Yn Amodol ar Gytundeb

- 17.1 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cyflenwr. Ni fydd y Cyflenwr yn aseinio'r budd nac unrhyw hawl sy'n deillio ohono heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw, a fydd gan yr hawl i wrthod y cyfryw ganiatâd yn ôl ei disgrisiwn llwyr ei hun.
- 17.2 Ni fydd y Cyflenwr yn rhoi i unrhyw barti arall unrhyw hawl, trwydded na chaniatâd a allai darfu ar unrhyw o'r hawliau neu'r buddion a roddwyd i S4C.
- 17.3 Bydd gan S4C yr hawl i aseinio, isgontractio, isdrwyddedu neu fel arall gael gwared ar ei hawliau neu gyfrifoldebau o dan y Cytundeb hwn ac/neu unrhyw ran ohonynt.

## 18. **Rhybuddion**

- 18.1 Y cyfeiriad a roddir i'r ddau barti yn y Cytundeb hwn fydd y cyfeiriad dilys ar gyfer cyflwyno rhybuddion hyd nes y bydd y naill barti yn hysbysu'r llall yn ysgrifenedig o gyfeiriad newydd yn y Deyrnas Unedig.
- 18.2 Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei gyflwyno ar y diwrnod gwaith nesaf os bydd wedi ei gyflwyno â llaw i'r cyfeiriad dilys fel y nodir uchod neu os cyflwynwyd i'r Swyddfa Bost wedi ei gyfeirio'n gywir ac wedi talu o flaen llaw am ei ddanfôn yn y post dosbarth cyntaf ar y diwrnod hwnnw. Bydd unrhyw gyfnod o rybudd y cyfeirir ato yn y Cytundeb hwn yn dechrau ar ddiwrnod yr ystyrir i'r rhybudd gael ei gyflwyno ac (oni nodir fel arall) ni fydd yn cynnwys dydd Sadwrn, Sul a gwyliau cyhoeddus.

## 19. **Force Majeure**

- 19.1 At ddibenion y Cytundeb hwn, bydd "Force Majeure" yn golygu digwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth y partïon sydd yn atal, dilyn neu gyflawni gan y naill barti neu'r llall o'i ymrwymadau o dan y Cytundeb hwn gan gynnwys tân, llifogydd, damwain na ellir ei hosgoi, argyfwng cenedlaethol, terfysg, anghydfod cyffredinol, gweithred ddwyfol (acts of God), mabwysiad unrhyw Ddeddf Seneddol (neu unrhyw awdurdod cyfansoddiadol cyfreithiol) neu unrhyw ddigwyddiad sy'n deillio o neu y gellir ei briodoli i ryfel neu wrthdaro arfog (gan gynnwys unrhyw gyfyngu a orfodir gan y Llywodraeth ar wasanaethau teledu cenedlaethol, rhanbarthol neu leol neu ariannu'r gwasanaethau hynny) neu unrhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth y partïon ac nid oherwydd unrhyw ddiffyg doethineb neu ragwelediad rhesymol gan y naill barti neu'r llall.
- 19.2 Os digwydd gweithred o Force Majeure bydd y parti yr effeithir arno'n hysbysu'r llall yn ysgrifenedig yn ddi-oed ac ar yr amod bod unrhyw anallu i ddilyn neu gyflawni unrhyw ymrwymiad o dan y Cytundeb hwn yn deillio yn unig o'r weithred honno ystyrir bod gweithredu'r ymrwymadau yr effeithir arnynt wedi eu gohirio o ddyddiad y cyfryw rybudd hyd nes bydd y cyfryw anallu yn cael ei ddileu neu hyd nes y terfynir y Cytundeb hwn neu hyd nes bydd "take over"/cymryd drosodd. Mae'r partïon yn cytuno i ddefnyddio pob ymdrech rhesymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi a'r holl gostau a threuliau a gyfyd gan ddigwyddiad o Force Majeure. Yn ystod unrhyw gyfnod o oedi o'r fath ni fydd S4C o dan unrhyw ddyletswydd i dalu'r Cyflenwr heblaw parthed ymrwymadau cytundebol y Cyflenwr na all y Cyflenwr eu hosgoi na'u gohirio ac y mae'r Cyflenwr wedi ymrwymo iddynt yn unol â gofynion y Cytundeb hwn.
- 19.3 Os bydd digwyddiad o Force Majeure yn digwydd ac yn parhau am gyfnod o dri deg (30) diwrnod neu fwy bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn ar roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr.

20. **Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG")**

- 20.1 Mae gan S4C yr hawl i brosesu'r holl ddata personol wedi ei ddarparu gan y Cyflenwr i S4C mewn cysylltiad â darparu Gwasanaethau'r Cyflenwr yn unol â'r Gofynion Diogelu Data a'r defnydd a fwriedir ei wneud gan S4C o Wasanaethau'r Cyflenwr. Bydd y Cyflenwr yn sicrhau caniatâd yr holl unigolion perthnasol i brosesu eu data personol at y diben hwn. Bydd yr holl ddata personol a fydd yn cael ei ddarparu i S4C yn cael ei brosesu yn unol â Pholisïau Diogelu Data a Phreifatrwydd S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.
- 20.2 Cyn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i S4C, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ganddo sail gyfreithiol briodol i drosglwyddo'r Data Personol i S4C a'i fod wedi sicrhau sail gyfreithiol briodol i alluogi S4C i brosesu'r Data Personol ar gyfer y defnydd a fwriedir ei wneud gan S4C o Wasanaethau'r Cyflenwr ac wrth weinyddu'r Cytundeb hwn
- 20.3 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 20.1 a 20.2 uchod, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod yr holl gytundebau â unigolion perthnasol a adnabyddir wrth ddarparu Gwasanaethau'r Cyflenwr yn cynnwys y bydd S4C yn rheolwr data mewn perthynas â Data Personol yr unigolyn perthnasol ar gyfer y defnydd a fwriedir ei wneud gan S4C o Wasanaethau'r Cyflenwr, ac yn cyfeirio'r cyfranwyr at ddolen gyswllt i Hysbysiad Preifatrwydd S4C (sydd ar gael ar [http://www.s4c.cymru/media/media\\_assets/2018.11.29\\_Hysbysiad\\_Preifatrwydd\\_Cyfranwyr.pdf](http://www.s4c.cymru/media/media_assets/2018.11.29_Hysbysiad_Preifatrwydd_Cyfranwyr.pdf)).
- 20.4 Mae'r ddau barti yn cytuno i gydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Gofynion Diogelu Data. Mae'r cymal 20.4 hwn yn ychwanegol i, ac nid yw'n lleddfu, disodli na chael gwared ar ddyletswydd unrhyw barti o dan y Gofynion Diogelu Data.
- 20.5 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 20.4 uchod, bydd y ddau barti, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir yn gysylltiedig â pherfformiad gan y Cyflenwr o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn:
- 20.5.1 rhoi cymorth i'r parti arall, heb dâl, i ymateb i unrhyw gais gan oddrych data ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan y Gofynion Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, hysbysiadau torri (*breach*), asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau gydag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr;
- 20.5.2 cadw cofnodion, polisïau a gweithdrefnau digonol i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r Gofynion Diogelu Data, ac yn gwneud y fath gofnodion, polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r parti arall ar ofyn rhesymol; ac
- 20.5.3 apwyntio swyddog diogelu data os yw'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Gofynion Diogelu Data, neu, lle nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny, i apwyntio unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelu data a hysbysu'r parti arall o enw'r unigolyn hynny.
- 20.6 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 20.3, mae'r parti yn cytuno, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir gan y parti hwnnw fel prosesydd yn unig ar ran y parti arall fel rheolwr o dan y Cytundeb hwn, y bydd y prosesydd yn:



## Yn Amodol ar Gytundeb

- 20.6.1 prosesu'r Data Personol ar gyfarwyddyd ysgrifenedig y rheolwr yn unig ac, ar gais ysgrifenedig y rheolwr, yn dileu neu ddychwelyd y Data Personol a chopiau ohono i'r rheolwr ar derfyn y Cytundeb hwn (oni bai ei fod wedi ei wahardd rhag gwneud hynny o dan unrhyw gyfreithiau perthnasol);
- 20.6.2 caniatáu archwiliadau gan y rheolwr neu ei archwiliwr dynodedig o weithdrefnau a phrosesau diogelu data y prosesydd mewn perthynas â'r Cytundeb hwn;
- 20.6.3 sicrhau bod ganddo mewn lle fesurau technegol a sefydliadol addas er mwyn diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon o'r Data Personol a rhag colled damweiniol neu ddinistriro, neu niwed i'r Data Personol, sy'n briodol i'r niwed a allai ddeillio o'r prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golled damweiniol, ddinistriro neu niwed, a natur y data i'w ddiogelu, gan roi ystyriaeth i gyflwr datblygiad technolegol a'r gost o weithredu unrhyw fesurau (gall y mesurau hynny gynnwys, lle'n briodol, anonymieiddio ac encryptio'r Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch ei systemau a gwasanaethau, gan sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i'r Data Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd);
- 20.6.4 sicrhau bod unrhyw bersonél sydd â mynediad i ac/neu sy'n prosesu Data Personol o dan ddyletswydd i gadw'r Data Personol yn gyfrinachol, eu bod yn ddibynadwy ac yn deall dyletswyddau cytundebol y prosesydd i'r llall;
- 20.6.5 peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd nac yn apwyntio unrhyw drydydd parti i brosesu'r Data Personol oni bai ei fod wedi sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y parti arall; a
- 20.6.6 hysbysu'r parti arall heb oedi gormodol ac heb fod yn hwyrach nac o fewn 24 awr i ddod yn ymwybodol o dorri Data Personol (*data breach*). Dylid hysbysu S4C trwy ddefnyddio'r cyfeiriad ebost canlynol: [data@s4c.cymru](mailto:data@s4c.cymru)
- 20.7 Mae cyfreithiau a chanllawiau yn ymwneud â Data Personol yn datblygu'n rheolaidd a gall S4C, ar unrhyw adeg ar roi dim llai na 30 diwrnod o rybudd, amrywio'r cymal 26 hwn er mwyn adlewyrchu unrhyw newid mewn arfer da neu ganllawiau gan eu hamnewid ag unrhyw gymalau safonol rheolwr i brosesydd perthnasol neu delerau
- 20.8 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sydd yn ddarostyngedig i ofnyon y DRhG a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("y Rheoliadau") a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'i dyletswyddau oddi tanynt ac, yn y cyswllt hwn, bydd y Cyflenwr ac yn peri y bydd ei staff yn:
- 20.8.1 darparu copi o'r holl wybodaeth berthnasol yn ei feddiant neu o fewn ei rym i S4C yn y ffurf mae ei angen ar S4C; a
- 20.8.2 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd S4C yn gofyn amdano'n rhesymol i alluogi S4C i ymateb i gais am wybodaeth cyn pen yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 y DRhG neu reoliad 5 y Rheoliadau
- ar yr amod bod S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cyflenwr ymlaen llaw (a chaiff rhesymoldeb y rhybudd ei farnu yng nghyd-destun yr amserlen statudol ar gyfer darparu'r wybodaeth).
- 20.9 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

## Yn Amodol ar Gytundeb

- 20.9.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau DRhG neu'r Rheoliadau; neu
- 20.9.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cyflenwr yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni bai y caiff ei awdurdodi yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.
- 20.10 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod y gall S4C gael ei gorfodi dan DRhG, neu'r Rheoliadau, i ddatgelu gwybodaeth neu y gall benderfynu bod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cyflenwr pan fo hynny'n ymarferol ac yn ystyried ei farn. Pan fo barn y Cyflenwr yn mynd yn groes i'r cyngor cyfreithiol y mae S4C wedi'i gael, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn atal S4C rhag gweithredu yn unol â'r cyngor cyfreithiol a gafwyd ganddi.
- 20.11 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir tra'n cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu sydd yn gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, yn cael ei chadw ar gyfer ei datgelu a bydd yn caniatáu S4C i archwilio'r cyfryw wybodaeth ar gais S4C o bryd i'w gilydd.
21. **Dehongliad**
- 21.1 Bydd darpariaethau'r Cytundeb hwn yn weithredol parthed pob rhan o ddarpariaeth Gwasanaethau'r Cyflenwr gan gynnwys unrhyw waith sydd wedi ei gwblhau cyn arwyddo'r Cytundeb hwn.
- 21.2 Cytunir bod y Cyflenwr yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn ac yn ymgymryd â'i ddyletswyddau fel contractwr annibynnol a does dim yn y Cytundeb hwn sy'n awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng S4C a'r Cyflenwr, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu fel asiant ar ran y llall oni bai bod hynny'n cael ei nodi yn benodol yn y Cytundeb hwn.
- 21.3 Ni fydd ildiad gan unrhyw un o'r partïon o unrhyw dorri ar unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn cael ei ddehongli fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb cynharach neu hwyrach nac yn ildiad o unrhyw delerau eraill.
- 21.4 Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn yn cael unrhyw effaith neu rym oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan gynrychiolwyr awdurdodedig y partïon.
- 21.5 Os bydd Llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na all ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei ddileu o'r Cytundeb hwn, a'i wneud yn aneffeithiol, a cyn belled ag y bo hynny'n bosibl heb newid y darpariaethau sydd yn weddill yn y Cytundeb hwn ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw amgylchiadau eraill nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb hwn.
- 21.6 Ac eithrio fel a nodir yn benodol yng nghymal 21.7, ni fydd gan unrhyw berson nad yw yn barti i'r Cytundeb hwn unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999 i weithredu unrhyw un o'i ddarpariaethau.
- 21.7 Bydd gan Gwmnïau Teulu S4C a'r Trydydd Partïon Awdurdodedig yr hawl i'r buddion a roddwyd i S4C o dan y Cytundeb hwn (gan gynnwys o dan gymalau 2, 3, 12 ac 13) a

## Yn Amodol ar Gytundeb

bydd ganddynt yr hawl i weithredu telerau'r Cytundeb o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartion) 1999.

- 21.8 Er gwaethaf darpariaethau cymal 21.7, gellir amrywio neu ddiddymu'r Cytundeb hwn trwy gytundeb rhwng S4C a'r Cyflenwr heb ganiatâd unrhyw drydydd parti.
- 21.9 Dehonglir y Cytundeb hwn fel cytundeb a wnaed yng Nghymru ac sy'n ddarostyngedig i gyfreithiau Cymru a Lloegr a'i fod yn ymgorffori'r holl delerau ac amodau a gytunwyd rhwng y partion.

## 22. **Atal Llygredigaeth a Thwyll**

- 22.1 Ni fydd y Cyflenwr yn cynnig neu roi, (neu'n cytuno i gynnig neu roi), i S4C neu i unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobwr am wneud, neu beidio gwneud unrhyw weithred amhriodol mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth (neu anffafriaeth) tuag at unrhyw berson mewn perthynas a'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall.
- 22.2 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu nad ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Cytundeb.
- 22.3 Bydd y Cyflenwr yn cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cyflenwr a'i staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau a chyfarwyddwyr) mewn perthynas ag unrhyw arian a dderbynnir gan S4C a bydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.
- 22.4 Os bydd y Cyflenwr, ei staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cyflenwr yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 22.1 neu 22.2 uchod ac/neu yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr i naill ai derfynu'r Cytundeb yn syth ac/neu adennill gan y Cyflenwr unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i unrhyw dorri ar y cymal hwn.

**ATODLEN 1**

**MANYLEB**

*[Manylion i'w cytuno rhwng S4C a'r tendrwr llwyddiannus yn seiliedig ar ofynion y ddogfen Gwahoddiad i Dendr a'r tendr a gyflwynwyd gan y tendrwr llwyddiannus.]*

DRAFT

**ATODLEN 2**

**DYLIF ARIANNOL**

*[Atodlen i'w ychwanegu yn dilyn cytundeb rhwng S4C a'r tendrwr llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]*

DRAFT

### ATODLEN 3

#### CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (y "CLG") hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb ac yn gosod allan y lefelau gwasanaeth sydd wedi eu cytuno ar gyfer datrys Namau gan y Cyflenwr sydd yn codi mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth a'i strwythur yn ystod y Cyfnod.

#### 1. Diffiniadau a Dehongliadau

1.1 Yn y CLG hwn, mae gan y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir drwy hyn (gan gynnwys yn y paragraff agoriadol uchod) yr un ystyr ag a ddiffinnir yn y Cytundeb. Yn ychwanegol, bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

<b>"Adroddiad Nam"</b>	fel y'i disgrifir ym mharagraff 3.1, y drefn a ddilynir gan S4C i hysbysu'r Cyflenwr o Nam;
<b>"Amseroedd Datrys Nam"</b>	fel y nodir ym mharagraff 5, y cyfnod amser a gytunwyd gyda'r Cyflenwr er mwyn i'r Cyflenwr ddatrys y Nam;
<b>"Awr Fusnes"</b>	(i) o safbwynt Namau sydd wedi eu penodi gan S4C yn Lefel Blaenoriaeth 1: awr rhwng 9:00am a 10:00pm GMT neu BST (fel sydd yn briodol) yn ystod unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn; a  (ii) o safbwynt Namau eraill: awr rhwng 9:00am a 5:15pm GMT neu BST (fel sydd yn briodol) yn ystod unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn  neu unrhyw gyfryw oriau eraill y gall S4C, wedi ymgynghori â'r Cyflenwr, eu mynnu;
<b>"Datrysiad Dros Dro"</b>	datrysiad dros dro i Nam sydd yn galluogi'r Gwasanaeth i barhau i weithio mor arferol ag sydd yn ymarferol a gall Datrysiadau Dros Dro gynnwys prosesau gweithredol a nodwyd gan y Cyflenwr sydd yn osgoi'r Nam sydd yn effeithio gweithrediad arferol y Gwasanaeth hyd nes y darperir Diweddariad;
<b>"Datrysiad Nam"</b>	datrys y Nam gan y Cyflenwr yn unol â pharagraff 5;
<b>"Lefel Blaenoriaeth"</b>	fel y nodir ym mharagraff 4, categoreiddio'r Nam drwy briodoli lefel blaenoriaeth iddo;
<b>"Llinell Gymorth"</b>	yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 3.1;
<b>"Trwsiad Chwilen"</b>	un ai addasiad neu ychwanegiad sydd, pan wedi ei wneud neu ei ychwanegu i'r Gwasanaeth, yn cywiro Nam neu ddull gweithredu neu ddull arferol o weithio, sydd, o edrych arno yng ngweithrediad rheolaidd y Gwasanaeth, yn dileu effaith ymarferol niweidiol y Nam ar y defnyddiwr;

ac

### **"Ymholiadau"**

ymholiadau ynglŷn â'r Gwasanaeth nad ydynt yn cael eu hateb yn foddhaol, neu o gwbl, gan unrhyw ddogfen hyfforddi a roddir gan y Cyflenwr i S4C o dan y Cytundeb (ond yn eithrio pob cyswllt rhwng y Cyflenwr a S4C sydd yn digwydd yn ystod ymchwil i'r Nam, rheoli neu ddatrys unrhyw Nam neu ddadansoddiad tuedd diweddarach neu adolygiad o Namau wedi eu datrys).

- 1.2 Mae cyfeiriadau at baragraffau yn gyfeiriadau at baragraffau yn y CLG hwn.
- 1.3 Bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir.
- 1.4 Defnyddir penawdau ar gyfer arweiniad yn unig ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar ddehongliad y CLG hwn.
- 1.5 Mae'r ymadrodd "yn cynnwys" i'w ddehongli heb gyfyngiad.

## **2. Gwasanaethau**

- 2.1 Yn ystod y Cyfnod, bydd y Cyflenwr yn darparu'r ymrwymadau lefel gwasanaeth ynglŷn â hysbysu nam, categoreiddio nam a datrys nam fel a nodir ym mharagraffau 3 i 5 isod.
- 2.2 Bydd y Cyflenwr yn perfformio ei oblygiadau yn unol â'r CLG hwn yn unol â'r lefelau gwasanaeth a gytunwyd, ond mae S4C yn cydnabod na fydd y Cyflenwr yn atebol am unrhyw oedi ym mherfformiad ei oblygiadau o dan y CLG hwn os yw'r oedi wedi ei achosi yn unig gan ddiffyg S4C i gyd-fynd â'i oblygiadau o dan y CLG hwn.
- 2.3 Mae gan y Cyflenwr oblygiad i ddarparu'r lefelau gwasanaeth a osodir yn y CLG hwn ynglŷn â phob Uwchraddiad o'r Gwasanaeth (os yn berthnasol) fel y'i datblygir neu y'i rhyddheir gan y Cyflenwr yn ystod y Cyfnod. Ni fydd y Cyflenwr yn ystod unrhyw amser yn ystod y Cyfnod yn peidio â chefnogi unrhyw fersiwn flaenorol o'r Gwasanaeth neu ran ohoni y mae S4C yn parhau i'w defnyddio yn unol â'r Cytundeb.

## **3. Hysbysu Nam**

- 3.1 Bydd y Cyflenwr yn ystod y Cyfnod yn gweithredu gwasanaeth hysbysiad nam ar gyfer galluogi S4C i hysbysu unrhyw Nam trwy ffonio [ ] yn ystod Oriau Busnes ar ("y Llinell Gymorth") gydag e-bost wedi hynny yn cadarnhau at [ ].
- 3.2 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gan y Llinell Gymorth adnoddau digonol o safbwynt personél sydd wedi eu hyfforddi yn gywir er mwyn cydymffurfio â'i oblygiadau o dan y CLG hwn.
- 3.3 Er mwyn galluogi'r Cyflenwr i asesu a dehongli'r Nam a phriodoli Lefel Blaenoriaeth iddo, bydd bob Adroddiad Nam yn cynnwys:
  - 3.3.1 enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn o bwynt cyswllt S4C sy'n hysbysu'r Nam,;
  - 3.3.2 disgrifiad llawn a manylion o natur y Nam; ac

## Yn Amodol ar Gytundeb

3.3.3 y Lefel Blaenoriaeth yr ystyrir yn berthnasol i'r Nam.

3.4 Ar amser cyflwyno Adroddiad Nam, bydd S4C lle bo hynny'n bosib yn rhoi i'r Cyflenwr unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol y bydd y Cyflenwr yn gofyn amdano'n rhesymol i gynorthwyo'r Cyflenwr i gydymffurfio â'i oblygiadau o dan y CLG hwn. Yn ychwanegol, bydd S4C yn cadarnhau unrhyw allweddair neu rif adnabod a ddarperir gan y Cyflenwr oherwydd rhesymau diogelwch.

## 4. Amseroedd Categorioidio Nam a Phriodoli Lefel Blaenoriaeth

4.1 Bydd pob Adroddiad Nam yn cael ei gategorioidio yn unol â Lefel Blaenoriaeth yn unol â'r tabl isod. S4C fydd ymhob achos yn penderfynu ar Lefel Blaenoriaeth y Nam.

Lefel Blaenoriaeth	Nam
1.	Unrhyw un o'r canlynol:  Gwasanaeth ddim yn gweithio (colled llwyr)  Unrhyw fater a all arwain at dor-cyfraith neu dorri ar unrhyw godau neu ganllawiau Ofcom neu reoleiddiwr arall
2.	Unrhyw un o'r canlynol:  Diraddiad yng ngweithrediad y Gwasanaeth er enghraifft elfennau penodol ddim yn gweithio.
3.	Unrhyw Nam sydd yn golygu fod priodweddau a/neu weithrediad meddalwedd y Gwasanaeth ddim yn gweithio fel yr adroddwyd ond yn achosi'r effaith lleiaf posibl ar weithrediad y Gwasanaeth ar y cyfan.

4.2 Bydd gan S4C yr hawl i dderbyn cefnogaeth resymol ac i wneud, a derbyn ateb i Ymholiadau yn ystod y Cyfnod. Bydd y Cyflenwr yn defnyddio pob ymdrech rhesymol i ymateb i'r fath Ymholiad o fewn pedair awr ar hugain o'i dderbyn.

## 5. Datrys Nam ac Amseroedd Datrys Nam

5.1 Bydd y Cyflenwr yn defnyddio ei ymdrechion gorau i ymateb i bob Nam a gofnodir o fewn yr amseroedd datrys nam y cyfeirir atynt isod.

Lefel Blaenoriaeth	Amser ymateb	Amser Datrys
1.	Hanner Awr Fusnes	Un Awr Fusnes
2.	Un Awr Fusnes	Tair Awr Fusnes, gydag adroddiad cynnydd pob Awr Fusnes
3.	Un Awr Fusnes	Tri Diwrnod Busnes, gydag adroddiad cynnydd pob Awr Fusnes



## Yn Amodol ar Gytundeb

Bydd y Cyflenwr yn darparu rhif ffôn argyfwng i S4C i alluogi S4C i adrodd Nam y tu allan i Oriau Busnes. Bydd y fath rif yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, megis Cynnwys Annerbyniol yn ymddangos ar y Gwasanaeth neu faterion eraill a all effeithio'n ddifrifol ar fusnes neu enw da S4C.

- 5.2 Yr Amseroedd Datrys a osodir ym mharagraff 5.1 uchod yw'r amseroedd datrys perthnasol ar ddyddiad arwyddo'r Cytundeb hwn. Bydd gan S4C yr hawl i ail ddsbarthu'r Amseroedd Datrys gyda chaniatâd y Cyflenwr (na fydd yn cael ei ddal yn ôl na'i oedi yn afresymol) yn sgil newid yn nifer y defnyddwyr neu newid blaenoriaethau drwy roi o leiaf deg Diwrnod Busnes o rybudd i'r Cyflenwr yn manylu'r amserlen newydd cyfatebol. Bydd mesur yr Amser Datrys yn dechrau o'r pwynt lle bydd yr alwad ffôn neu e-bost cyfatebol yn cael ei derbyn gan y Cyflenwr a bydd yn terfynu pan fo S4C yn ei barn rhesymol wedi derbyn Datrysiad Nam boddhaol i'r Nam penodol.
- 5.3 Bydd y Cyflenwr o fewn yr Amseroedd Datrys Nam cyfatebol yn darparu Datrysiad Nam drwy un ai:
  - 5.3.1 ymgymryd â holl waith cywiro angenrheidiol i ddatrys y Nam (neu, os cytunir gyda S4C, drwy gynghori S4C fel y gall ymgymryd y fath waith cywiro a all fod yn bosibl i ddatrys y Nam ei hun); neu
  - 5.3.2 lle'n briodol drwy ddarparu Trwsiad Chwilen i gywiro a datrys y Nam.
- 5.4 Os nad yw'r Cyflenwr yn gallu darparu Datrysiad Nam yn unol â pharagraff 5.3 uchod, bydd yn hytrach yn darparu Datrysiad Dros Dro o fewn yr Amseroedd Datrys Nam cyfatebol. Bydd y Cyflenwr, ymhob achos lle mae'n darparu Datrysiad Dros Dro yn hytrach na Datrysiad Nam, yn defnyddio ac yn parhau i ddefnyddio ei ymdrechion gorau i ddarparu Datrysiad Nam.
- 5.5 Lle na all y Cyflenwr gywiro neu ddatrys y Nam o fewn yr Amseroedd Datrys Nam cyfatebol, bydd y Cyflenwr, o fewn tair awr o ddiwedd yr Amser Datrys y Nam perthnasol, yn darparu i S4C gynllun sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyflenwr yn ymdrin ag a chywiro'r Nam ynghyd ag amcangyfrif o'r amser y bydd yn cymryd i wneud hynny.

**[Cynnwys y CLG hwn i'r gwblhau yn unol â'r tendr llwyddiannus]**

**Yn Amodol ar Gytundeb**

YN DYST i hyn y mae cynrychiolwyr awdurdodedig y partïon wedi arwyddo'r Cytundeb hwn y diwrnod a'r flwyddyn a nodwyd ar frig y Cytundeb hwn.

ARWYDDWYD dros ac ar ran **S4C**

.....

ARWYDDWYD gan ac ar ran  
**y Cyflenwr**

.....

**Cyfarwyddwr**

.....

**Cyfarwyddwr**

